Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

# Eich canllaw i'r Gronfa Ymgysylltu â'r Gymuned gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

Mae'r cyfnod ymgeisio ar gyfer y Gronfa Ymgysylltu â'r Gymuned wedi dod i ben.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 12 Gorffennaf 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 8 Medi 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gronfa-ymgysylltu-ar-gymuned-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Ynglŷn â’r grant

Beth mae’r Comisiwn yn chwilio amdano?

Pa meini prawf sydd angen i mi ddilyn?

Pa wybodaeth mae angen i chi ei darparu?

Sut i gyflwyno’ch cais

Sut bydd y penderfyniad ar brosiectau llwyddiannus yn cael ei wneud

Gwybodaeth gefndir



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gronfa-ymgysylltu-ar-gymuned-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynglŷn â’r grant

Gofynnwyd i’r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, sy’n gorff annibynnol, edrych ar opsiynau o ran sut y gallai Cymru gael ei rhedeg yn y dyfodol. Mae’r Comisiwn eisiau clywed gan gymaint o bobl â phosib, o bob cefndir ac ym mhob cymuned, am beth sy’n bwysig iddyn nhw, a beth yw eu gobeithion ar gyfer dyfodol Cymru.

Mae’r Comisiwn wedi sefydlu’r cyfle ariannu yma i wneud yn siŵr bod y sgwrs genedlaethol am y ffordd y gallai Cymru gael ei rhedeg yn y dyfodol yn cynnwys llawer o gymunedau amrywiol o Gymru.

Mae’r Gronfa Ymgysylltu â’r Gymuned yn rhoi cyfle i grwpiau a sefydliadau gael mynediad at gyllid ar gyfer prosiectau ymgysylltu a fydd yn cyfrannu at waith y Comisiwn.

Bydd y Comisiwn yn darparu grantiau, hyd at uchafswm o £5,000, i fudiadau trydydd sector neu grwpiau cymunedol. Nid yw’r cynllun yma ar agor i bleidiau gwleidyddol na grwpiau ymgyrchu. Bydd cyfleoedd eraill i’r grwpiau yma gyfrannu at waith y Comisiwn. Y cyfanswm sydd ar gael i’w ddosbarthu o dan y cronfa yma yw £50,000. Mae’r cronfa ar gael i’r trydydd sector, grwpiau cymunedol neu sefydliadau.

# Beth mae’r Comisiwn yn chwilio amdano?

Mae’r Comisiwn yn chwilio am gynigion gan eich sefydliad ar gyfer prosiect sy’n dangos sut y byddwch chi’n gweithio gyda chymunedau Cymru, i wneud yn siŵr eu bod nhw’n cymryd rhan yn y sgwrs genedlaethol yma. Mae’n arbennig o bwysig ein bod ni’n cynnwys pobl sy’n teimlo nad oes ganddyn nhw lais yn y sgwrs yma.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gronfa-ymgysylltu-ar-gymuned-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'r grantiau'n cael eu cynnig er mwyn gwneud yn siŵr bod barn, safbwyntiau, pryderon a phrofiadau cymunedau amrywiol Cymru yn cael eu cynnwys yn adroddiad interim y Comisiwn. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd gofyn i chi gyflwyno adroddiad i'r Comisiwn am eich prosiect, yn ogystal â gwerthusiad a chanfyddiadau o'r prosiect.

## Pa meini prawf sydd angen i mi ddilyn?

Gallech wneud cais yn annibynnol neu cydweithio hefo grwpiau eraill i gyflwyno cais am gyllid. Cofiwch feddwl am y meini prawf canlynol wrth i chi lunio cais unigol neu ar y cyd â sefydliad arall:

1. Y gallu i ymgysylltu â grŵp(iau) a/neu gymunedau ar faterion sy'n berthnasol i'r Comisiwn ac i gynhyrchu dadansoddiad craff. Dylech ddangos hyn yn eich cais drwy ddarparu amlinelliad o sut rydych chi'n bwriadu ymgysylltu â'r cymunedau yma. Os oes gennych chi brofiad blaenorol o ymgysylltu â'r gymuned, dylech gynnwys hyn yn eich cais. Os nad oes gennych brofiad blaenorol, mi fydd cymorth a chyngor ar gael i chi.
2. Y gallu i ddefnyddio dulliau ymgysylltu arloesol i oresgyn rhwystrau a chyrraedd pobl sy'n teimlo nad oes ganddyn nhw lais yn y sgwrs. Dylech gynnwys unrhyw brofiad blaenorol yn eich cais.
3. Y gallu i lunio adroddiad ysgrifenedig, adroddiad sydd wedi'i recordio neu adroddiad llafar gan gynnwys crynodeb o'r dystiolaeth a gafodd ei chasglu a gwybodaeth ddemograffig am y cyfranogwyr. Drwy gydol y cyfnod ymgysylltu, bydd y Comisiwn hefyd yn gofyn i chi ddarparu mwy o adborth anffurfiol. Os oes gennych chi brofiad blaenorol o lunio adroddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, dylech gynnwys hyn yn eich cais. Os nad oes gennych brofiad blaenorol, bydd cyngor a chymorth ar gael i chi.
4. Y capasiti o ran adnoddau i gyflawni'r gwaith yma erbyn dechrau mis Tachwedd 2022. Fel rhan o'ch cais, dylech roi amlinelliad o ba adnoddau y byddwch yn ymrwymo i'r gweithgaredd yma a darparu amserlen arfaethedig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gronfa-ymgysylltu-ar-gymuned-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Rydyn ni'n chwilio am ymgeiswyr ledled Cymru gyfan – er nad oes rhaid i geisiadau unigol fod â'r gallu i gyrraedd Cymru gyfan, rydyn ni'n croesawu ceisiadau sy'n seiliedig ar ardal, cymuned neu bwnc.

Rydyn ni'n awyddus i glywed gan ymgeiswyr a fydd yn gallu ymgysylltu a'r cymunedau canlynol neu hefo profiad o'r themau canlynol, ac yn gallu cynnig ymgysylltiad drwy amrywiaeth o ieithoedd.

Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr ac rydyn ni'n croesawu ceisiadau sy'n ymwneud â chymunedau neu themâu eraill hefyd.

- Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Grwpiau ffydd
- Ceiswyr lloches, ffoaduriaid a chymunedau sydd newydd ymsefydlu
- Pobl ifanc
- Pobl hŷn
- Grwpiau cymunedol
- Pobl LHDTC+
- Menywod/Merched
- Pobl anneuaidd
- Pobl anabl
- Y rhai hynny sydd wedi profi digartrefedd
- Y rhai hynny sydd wedi profi diweithdra
- Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Preswylwyr mewn lleoliadau gofal neu sydd yn y system ofal neu y rhai hynny sydd wedi gadael y system ofal
- Cyn-droseddwyr

# Pa wybodaeth mae angen i chi ei darparu?

Dylech ddarparu cynnig, tua dwy neu dair ochr A4 (dim hirach), sy'n amlinellu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gronfa-ymgysylltu-ar-gymuned-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

sut y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru mewn sgwrs genedlaethol am y ffordd y gallai Cymru gael ei rhedeg yn y dyfodol. Cofiwch feddwl am y meini prawf uchod.

Dylech gynnwys dadansoddiad o'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect sydd yn eich cynnig.

Cofiwch nodi hefyd ym mha un o'r pedwar categori daearyddol isod mae eich gweithgaredd yn digwydd (sylwer, mae awdurdodau lleol wedi'u rhestru i egluro ffiniau rhanbarthol, ond does dim angen i geisiadau ddangos gweithgarwch penodol ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth yna).

- Cymru gyfan
- Y Gogledd (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Sir Fôn, Wrecsam)
- Y Canolbarth a'r Gorllewin (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys)
- Y De (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Abertawe, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg)

# Sut i gyflwyno'ch cais

Dylai pob cais gael ei gyflwyno drwy e-bost, at **ComisiwnYCyfansoddiad@llyw.cymru**, erbyn Awst 12 fan bellaf.

Ein nod yw rhoi gwybod i sefydliadau am ganlyniad eu cais erbyn diwedd mis Awst 2022, ac rydyn ni'n rhagweld y bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau ar eu prosiectau ar ddechrau Mis Medi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gronfa-ymgysylltu-ar-gymuned-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Sut bydd y penderfyniad ar brosiectau llwyddiannus yn cael ei wneud

Bydd panel asesu yn adolygu'r ceisiadau. Bydd y panel yn asesu ac yn sgorio ceisiadau yn erbyn y meini prawf uchod.

Bydd ceisiadau'n cael eu trefnu gan y panel a'u graddio yn ôl eu sgôr a gytunwyd gan y panel.

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn ymgysylltu â grwpiau ledled Cymru, bydd o leiaf un cais o bob un o'r categorïau daearyddol (sydd i'w gweld uchod) yn cael ei ddewis i'w argymell.

Bydd cyllid grant yn cael ei ddyfarnu i sefydliadau yn amodol ar y telerau ac amodau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cais, gallwch anfon e-bost i **ComisiwnYCyfansoddiad@llyw.cymru**

## Gwybodaeth gefndir i helpu gyda'ch cais

Dweud eich dweud (noder: nid yw'r Comisiwn yn chwilio am geisiadau sy'n gofyn y cwestiynau yma i aelodau/cymunedau yn unig, mae'n bwysig i ni fod yr ymgysylltiad yn briodol, yn hygyrch ac yn gynhwysol i'r gynulleidfa).

- **Gwefan y comisiwn**
- Twitter: **@comisiwn**
- Facebook: **@comisiwn**
- Instagram: **@comisiwn**
- Ebost: **ComisiwnYCyfansoddiad@llyw.cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gronfa-ymgysylltu-ar-gymuned-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gronfa-ymgysylltu-ar-gymuned-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.